

**GORCHYMYN TRAFFIG ARBROFOL
(CYFYNGIAD CYFLYMDER 20 MYA A 30 MYA
PENTREF ABERTHIN)
BRO MORGANNWG 2021**

Rhoddir **RHYBUDD** trwy hyn y gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg Orchymyn Traffig Arbrofol ar 17 Awst 2021 dan Adrannau 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl rymoedd galluogi eraill wedi ymgynghoriad â phrif swyddog yr heddlu yn unol ag Atodiad 9 Deddf 1984. Effaith y Gorchymyn Traffig Arbrofol, a fydd yn weithredol ar 20 Awst 2021, neu ar y dyddiad y bydd yr arwyddion priodol a'r marciau stryd wedi eu gosod, fydd fel y nodir yn yr Atodlenni isod am y cyfnod y bydd ar waith. Y rheswm dros wneud Gorchymyn Traffig Arbrofol yw asesu effaith y cyfyngiadau cyflymder am gyfnod prawf cyn ystyried a ddylid gwneud darpariaethau'r Gorchymyn Traffig Arbrofol yn barhaol.

Gellir gweld manylion llawn a chynlluniau'r cynigion ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk neu yn nerbynfeydd y Swyddfeydd Dinesig a Depo'r Alpau yng Ngwenfô.

Mae modd i'r darpariaethau arbrofol barhau mewn grym am gyfnod prawf o hyd at 18 mis cyn y rhoddir ystyriaeth i Orchymyn parhaol, o fewn cyfnod o 6 mis i'r Gorchymyn Traffig Arbrofol ddod i rym. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad sydd gennych i'r cynnig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf: IF943) yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk a rhaid i hwn gynnwys unrhyw resymau dros eich gwrthwynebiad. Gall unrhyw berson wrthwynebu gwneud Gorchymyn parhaol.

Gwahoddir unrhyw sylwadau sy'n cefnogi'r Gorchymyn Traffig Arbrofol hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Gall unrhyw unigolyn sydd am gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn Traffig Arbrofol neu unrhyw un o'i ddarpariaethau ar y sail nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf alluogi berthnasol, neu na chydymffurfiwyd â gofynion unrhyw Ddeddf alluogi debyg, neu unrhyw reoliadau perthnasol, o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn Traffig Arbrofol, wneud cais i'r perwyl hwn i'r Uchel Lys.

ATODLEN 1

Cyfyngiad Cyflymder 30 mya presennol

Diwygio Eitem 1 o Orchymyn Cyngor Sir De Morgannwg (Aberthin Road) (yr A4222) (Y Bont-faen) (Ffordd Gyfyngedig) 1980, i ddarllen:

O bwynt 823 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd ag Eastgate - Cardiff Road, y Bont-faen, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am ryw 268 metr.

ATODLEN 2

Cyfyngiad Cyflymder 30 mya

Ni chaiff neb beri na chaniatáu i gerbyd modur deithio ar gyflymder sy'n fwy na 30 mya yn y lleoliad a nodir yn Atodlen 3 isod.

ATODLEN 3

Maendy Road (A4222)

O bwynt 110 metr i'r gogledd o'r gyffordd â Maes Lloi i gyfeiriad cyffredinol y gogledd am ryw 378 metr.

ATODLEN 4

Ni chaiff neb beri na chaniatáu i gerbyd modur deithio ar gyflymder sy'n fwy na 20 mya yn y lleoliad a nodir yn Atodlen 5 isod.

ATODLEN 5

Aberthin Road/Cowbridge Road/Maendy Road (A4222)

O bwynt tua 142 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Llanquian Road, tua'r gogledd-ddwyrain ac yna tua'r gogledd, am ryw 334 metr.

Pen-y-Lan Road

O'r gyffordd â Llanquian Road i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain am ryw 448 metr.

Aberthin Lane

O'r gyffordd â Heol Pen-y-Lan tua'r de-orllewin am ryw 93 metr.

Whitefields Farm Lane

O'r gyffordd â Maendy Road (A4222) i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain am ryw 258 metr.

Bydd y Ffyrdd, y Strydoedd a'r Ffyrdd Pengaead canlynol yn destun y gorchymyn ar eu hyd cyfan:

Chapel Close, Court Close, Downs View, Downs View Close, Llanquian Road, Maes Lloi a The Orchard

Dyddiad 19 Awst 2021

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweladwy a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA